# Ymgynghoriad ar ymagwedd yr ICO at ymdrin â chwynion diogelu da

## Overview

Mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) yn ymgynghori ar newidiadau drafft i'r ffordd rydyn ni’n ymdrin â chwynion diogelu data. Mae'n nodi’n fframwaith arfaethedig ar gyfer asesu a phenderfynu i ba raddau y mae'n briodol ymchwilio i bob cwyn. Bydd hyn yn ein galluogi i ganolbwyntio ar achosion lle gallwn gael yr effaith fwyaf a gwella cydymffurfiaeth diogelu data.

Mae gan bobl hawl statudol i gyflwyno cwyn diogelu data i'r ICO os ydyn nhw’n credu bod eu hawliau diogelu data o dan GDPR y DU wedi’u torri.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf rydyn ni wedi gweld cynnydd arwyddocaol mewn cwynion diogelu data. Yn 2023/24, cawsom 39,721 o gwynion. Yn 2024/25 cododd hyn i 42,881 ac mae'r rhagolygon cyfredol yn dangos y gallai hyn gynyddu i rywle rhwng 45,000 a 55,000 os bydd y duedd bresennol yn parhau.

Mae'r galw cynyddol am ein gwasanaethau yn effeithio ar ein gallu i ymateb yn gyflym ac yn effeithiol. Rydyn ni am ystyried ffyrdd newydd o ymdrin â chwynion diogelu data.

Mae'r Ddeddf Data (Defnyddio a Mynediad) yn gosod gofynion newydd ar sefydliadau i gael proses gwyno yn unswydd ar gyfer materion sy'n gysylltiedig â diogelu data. Pan ddaw'r ddarpariaeth i rym, fe fydden ni’n disgwyl y bydd mwy o gwynion yn cael eu datrys gan sefydliadau heb gynnwys yr ICO.

Os bydd pobl yn dod â'u cwyn i'r ICO, rydyn ni am ddarparu'r gwasanaeth mwyaf effeithiol o gofio’r adnoddau cyfyngedig sydd gennym. Mae hynny'n golygu edrych ar ein dull ni’n hunain o ymdrin â chwynion.

Rydyn ni’n cynnig newidiadau yn ein prosesau er mwyn cefnogi pobl sydd wedi profi niwed yn well a chanolbwyntio’n hadnoddau ar yr achosion hynny lle gallwn gael yr effaith fwyaf. Bydd sefydliadau hefyd yn elwa o lai o ymgysylltu rhigolaidd ynghylch achosion risg is, gan eu galluogi i ganolbwyntio ar y pryderon mwyaf arwyddocaol. Ein nod yw nid yn unig rheoli’r galw, ond codi safonau ym maes profiad cwsmeriaid ac effeithiolrwydd rheoleiddio.

Rydyn ni wedi datblygu fframwaith drafft rydyn ni’n bwriadu ei ddefnyddio i benderfynu i ba raddau y mae'n briodol ymchwilio i bob cwyn. Rydyn ni hefyd yn cynnig mecanweithiau adrodd newydd i'n galluogi i fonitro niferoedd y cwynion ar draws sefydliadau a sectorau penodol. Bydd hyn yn fodd inni nodi tueddiadau neu themâu a allai elwa o fathau eraill o weithredu rheoleiddiol.

Byddai'r ymagwedd a amlinellir yn yr ymgynghoriad yma yn sicrhau bod pob cwyn yn cyfrannu at ein dealltwriaeth o arferion hawliau gwybodaeth sefydliad, ac yn caniatáu yr un pryd inni ganolbwyntio’n hadnoddau ar y risgiau mwyaf arwyddocaol. Mae hefyd yn cryfhau’n gallu i nodi materion systemig yn gynharach.

Mae'n adlewyrchu ein huchelgais o fod yn rheoleiddiwr strategol – un sy'n ystyried pob cwyn, yn ymateb yn gymesur ac yn defnyddio'r mewnwelediad a gafwyd i sbarduno gwelliannau mewn arferion diogelu data.

Mae angen inni wneud pethau'n wahanol a bydd trawsnewid ein prosesau yn fodd inni dargedu’n hadnoddau i gefnogi hawliau gwybodaeth pobl mewn ffordd sy'n cael effaith gadarnhaol ac yn mynd i'r afael â'r meysydd sy'n achosi'r niwed mwyaf.

Mae’r cwestiynau wedi'u rhannu o dan yr adrannau canlynol:

Adran 1: Amdanoch chi.

Adran 2: Eich barn ar ein hymagwedd.

Adran 3: Cwestiynau i asesu effaith ein hymagwedd arfaethedig.

Adran 4: Unrhyw sylwadau ychwanegol am y fframwaith.

Bydd yr ymgynghoriad yn aros yn agored tan **23:59 nos Wener 31 Hydref 2025**. Efallai na fyddwn yn ystyried ymatebion sy’n dod i law ar ôl y dyddiad cau yma.

**Hysbysiad Preifatrwydd**

I gael rhagor o wybodaeth am yr hyn rydyn ni’n ei wneud â data personol yn yr ICO, gweler ein hysbysiad preifatrwydd **yma** *<https://eur03.safelinks.protection.outlook.com/?url=https%3A%2F%2Fico.org.uk%2Fglobal%2Fprivacy-notice%2Fresponding-to-our-consultation-requests-and-surveys%2F&data=05%7C02%7CGillian.Cartwright%40ico.org.uk%7C19f040730660468265 6608ddd984c472%7C501293238fab4000adc1c4cfebfa21e6%7C0%7C0%7C6* .

Sylwch ein bod yn defnyddio llwyfan Citizen Space i gasglu'r wybodaeth yma. Darperir Citizen Space gan Delib. I gael rhagor o fanylion, gweler eu **Hysbysiad Preifatrwydd** *<https://www.delib.net/legal/privacy_notice>* nhw.

**Ymateb i'n ceisiadau ymgynghori a'n harolygon**

Ar gyfer yr ymgynghoriad yma, gallwn gyhoeddi'r ymatebion sy’n dod i law oddi wrth sefydliadau yn llawn neu grynodeb o'r ymatebion. Os byddwn ni’n cyhoeddi unrhyw ymatebion, byddwn yn tynnu unrhyw wybodaeth bersonol, cyfeiriadau ebost a rhifau ffôn o'r ymatebion yma. Peidiwch â rhannu unrhyw wybodaeth yn eich ymateb na fyddech chi’n fodlon inni drefnu ei bod ar gael i'r cyhoedd.

Os cawn ni gais Rhyddid Gwybodaeth am eich ymateb, byddwn bob amser yn ceisio ymgynghori â chi am eich barn ar ddatgelu'r wybodaeth yma cyn i unrhyw benderfyniad gael ei wneud. I gael rhagor o wybodaeth am yr hyn rydyn ni’n ei wneud â data personol yn yr ICO, gweler ein **hysbysiad preifatrwydd** *<https://ico.org.uk/global/privacy-notice/>* a'r adran ar **ymateb i'n harolygon** *<https://ico.org.uk/global/privacy-notice/responding-to-our-consultation-requests-and-surveys/>* .

## Amdanoch chi

**1** Ydych chi'n gweithredu fel:

*(Required)*

*Please select only one item*

- ◯ academydd
- ◯ unigolyn yn gweithredu mewn swyddogaeth breifat (e.e. rhywun sy'n rhoi eu barn fel aelod o'r cyhoedd)
- ◯ unigolyn yn gweithredu ar ran sefydliad
- ◯ arall

**2** Os ydych chi wedi dewis 'arall', nodwch fel pwy rydych chi'n gweithredu. Os nad ydych chi wedi dewis 'arall', hepgorwch y cwestiwn.

## Amdanoch chi

**3** Os yw'n gymwys, beth yw enw'ch sefydliad chi?

*(Required)*

**4** Pa un yw'ch sefydliad chi:

*(Required)*

*Please select only one item*

- ◯ Sector cyhoeddus
- ◯ Sector preifat
- ◯ Elusen neu ddi-elw

**5** Beth yw maint eich sefydliad chi?

*(Required)*

*Please select only one item*

- ◯ 1 i 9 o aelodau o staff
- ◯ 10 i 49 o aelodau o staff
- ◯ 50 i 249 o aelodau o staff
- ◯ 250 i 499 o aelodau o staff
- ◯ 500 neu fwy o aelodau o staff
- ◯ Ansicr/ ddim yn gwybod

### 6 Ydy'ch sefydliad chi: (dewiswch bob un sy'n gymwys)

*(Required)*

*Please select all that apply*

- [ ] â phencadlys yn y Deyrnas Unedig
- [ ] yn sefydliad rhyngwladol sydd â phresenoldeb yn y Deyrnas Unedig
- [ ] wedi'i leoli yn y Deyrnas Unedig yn unig
- [ ] Ansicr/ ddim yn gwybod
- [ ] Arall

## Eich barn ar ein hymagwedd

Mae'r cwestiynau canlynol yn ymwneud â'n hymagwedd arfaethedig at ymdrin â chwynion. Mae hyn yn cynnwys yr adrannau canlynol yn y ddogfen ymgynghori:

Y fframwaith

Sut y bydden ni'n cymhwyso'r fframwaith

Beth bydden ni'n ei wneud â'r wybodaeth rydyn ni'n ei chasglu o gwynion

### 7 I ba raddau rydych chi'n cytuno bod 'ein hymagwedd arfaethedig at ymdrin â chwynion' yn esbonio'n glir sut y byddwn ni'n ymdrin â chwynion?

*(Required)*

*Please select only one item*

- ( ) Cytuno'n gryf
- ( ) Cytuno
- ( ) Anghytuno
- ( ) Anghytuno'n gryf
- ( ) Ansicr/ ddim yn gwybod

Os anghytuno / anghytuno'n gryf / ansicr rhowch esboniad

### 8 Oes unrhyw beth arall rydych chi'n credu y dylen ni ei gynnwys yn ein hymagwedd arfaethedig at ymdrin â chwynion?

*(Required)*

*Please select only one item*

- ( ) Oes
- ( ) Nac oes

Os 'Oes' rhowch esboniad:

## Eich barn ar ein hymagwedd

Mae'r cwestiynau canlynol yn ymwneud â'r ddogfen **fframwaith** *<https://ico.org.uk/media2/pkphwii1/fframwaith-arfaethedig-ar-gyfer-ymdrin-%C3%A2-chwynion-diogelu-data.pdf>* .

### 9 I ba raddau rydych chi'n cytuno bod y ddogfen fframwaith arfaethedig yn esbonio sut y byddwn ni'n ymdrin â chwynion.

*(Required)*

*Please select only one item*

- ◯ Cytuno'n gryf
- ◯ Cytuno
- ◯ Anghytuno
- ◯ Anghytuno'n gryf
- ◯ Ddim yn gwybod / ansicr

Esboniwch eich ymateb:

### 10 Oes unrhyw beth arall rydych chi'n credu y dylen ni ei gynnwys yn y ddogfen fframwaith arfaethedig yma?

*(Required)*

*Please select only one item*

- ◯ Oes
- ◯ Nac oes

Os 'Oes' rhowch esboniad:

## Eich barn ar ein hymagwedd

Mae'r cwestiynau canlynol yn ymwneud â'r 'meini prawf' (fel y'u nodir yn y **fframwaith** *<https://ico.org.uk/media2/pkphwii1/fframwaith-arfaethedig-ar-gyfer-ymdrin-%C3%A2-chwynion-diogelu-data.pdf>* arfaethedig) y byddwn ni'n eu defnyddio i asesu cwynion.

**11** I ba raddau rydych chi'n cytuno â'r 'meini prawf' y byddwn ni'n eu hystyried wrth asesu cwynion:

*(Required)*

*Please select only one item*

- ◯ Cytuno'n gryf
- ◯ Cytuno
- ◯ Anghytuno
- ◯ Anghytuno'n gryf
- ◯ Ddim yn gwybod / ansicr

Esboniwch eich ymateb:

**12** Oes unrhyw beth arall rydych chi'n credu y dylen ni ei gynnwys yn ein meini prawf?

*(Required)*

*Please select only one item*

- ◯ Oes
- ◯ Nac oes

Os 'Oes' rhowch esboniad:

## Eich barn ar ein hymagwedd

Mae'r cwestiynau canlynol yn ymwneud â'r adran 'beth byddwn ni'n ei wneud â'r wybodaeth rydyn ni'n ei chasglu o gwynion'.

**13** I ba raddau rydych chi'n cytuno â'r cynlluniau arfaethedig o'r hyn y byddwn ni'n ei wneud â'r wybodaeth rydyn ni'n ei chasglu o gwynion?

*(Required)*

*Please select only one item*

- ◯ Cytuno'n gryf
- ◯ Cytuno
- ◯ Anghytuno
- ◯ Anghytuno'n gryf
- ◯ Ddim yn gwybod / ansicr

Esboniwch eich ymateb:

**14** Oes unrhyw beth arall rydych chi'n credu y dylen ni ei ystyried wrth ddefnyddio’r wybodaeth rydyn ni’n ei chasglu o gwynion?

*(Required)*

*Please select only one item*

- ◯ Oes
- ◯ Nac oes

Os ‘Oes’ rhowch esboniad:

## Cwestiynau i asesu effaith ein hymagwedd arfaethedig

O fewn yr Asesiad Effaith drafft o Ymagwedd yr ICO at **Ymdrin â Chwynion Diogelu Data arfaethedig** *<https://ico.org.uk/media2/g04ddjxg/ymagwedd-at-ymdrin-%C3%A2-chwynion-diogelu-data-asesiad-effaith-drafft.pdf>* rydym yn nodi amlinelliad cychwynnol, lefel uchel o gostau a buddion posibl yr ymagwedd arfaethedig at ymdrin â chwynion diogelu data ar gyfer gwahanol grwpiau yr effeithir arnyn nhw. Rydym yn ceisio adborth ar yr asesiad drafft yma, yn ogystal ag unrhyw fewnwelediadau ehangach y gallech eu darparu ar effeithiau. Bydd hyn yn ein galluogi i ailadrodd ein hasesiad effaith ymhellach i helpu i lywio’n hymagwedd derfynol at ymdrin â chwynion diogelu data.

**15** Ydych chi'n cytuno â'r rhestr a nodwyd o'r grwpiau yr effeithir arnynt yn Adran 5.4 o'r asesiad effaith?

*(Required)*

*Please select only one item*

- ◯ Cytuno’n gryf
- ◯ Cytuno
- ◯ Anghytuno
- ◯ Anghytuno’n gryf
- ◯ Ddim yn gwybod / ansicr

**16** Oes unrhyw grwpiau eraill o randdeiliaid rydych chi'n credu y bydd yr ymagwedd arfaethedig at ymdrin â chwynion diogelu data yn effeithio arnyn nhw? Os oes, rhowch y manylion isod.

*(Required)*

*Please select only one item*

- ◯ Oes
- ◯ Nac Oes

Os ‘Oes’, rhowch y manylion isod.

**17** Ydych chi'n cytuno â'r asesiad o gostau a buddion a amlinellir yn yr asesiad effaith?

*(Required)*

*Please select only one item*

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Ddim yn gwybod / ansicr

Esboniwch eich ymateb:

**18** Oes unrhyw gostau a/neu fuddion eraill y dylid eu hystyried yn eich barn chi?

*(Required)*

*Please select only one item*

- Oes
- Nac Oes

Os 'Oes', rhowch fanylion isod ac unrhyw dyst iolaeth a allai fod gennych i ddarlunio hyn.

**19** Ydych chi'n credu y bydd yr ymagwedd arfaethedig at ymdrin â chwynion diogelu data yn arwain at unrhyw gostau neu fuddion ychwanegol i chi/eich sefydliad? (Gallai'r rhain fod yn ariannol neu'n anariannol)

*(Required)*

*Please select only one item*

- Cost(au)
- Budd(ion)
- Y ddau
- Dim un o'r ddau
- Ddim yn gwybod / ansicr

**20** Os yw'n gymwys, disgrifiwch y mathau o gostau a/neu fuddion ychwanegol y gallech chi/eich sefydliad eu hwynebu, gan gynnwys amcangyfrif bras lle bo modd.

**21** Oes unrhyw dystiolaeth neu wybodaeth arall am effeithiau posibl yr hoffech inni eu hystyried?

*(Required)*

*Please select only one item*

- Oes
- Nac oes

Os felly, amlinellwch hyn isod. Gallai hyn gynnwys disgrifiad, enghreifftiau, neu ddolenni i ffynonellau tystiolaeth eraill.

## Sylwadau cyffredinol ychwanegol am yr ymagwedd arfaethedig.

**22** Rhowch unrhyw sylwadau neu awgrymiadau cyffredinol pellach sydd gennych am yr ymagwedd arfaethedig.

**23** Oes unrhyw dermau neu adrannau yn yr ymagwedd arfaethedig rydych chi'n eu gweld yn aneglur neu'n rhy dechnegol?

*(Required)*

*Please select only one item*

- Oes
- Nac oes

Os 'Oes' rhowch esboniad:

**24** Fyddech chi'n fodlon inni gysylltu â chi os oes gennym unrhyw gwestiynau dilynol ar sail eich ymatebion i'r ymgynghoriad yma?

*(Required)*

*Please select only one item*

- ◯ Byddwn
- ◯ Na fyddwn

Os 'Byddwn', rhowch eich enw / eich cyfeiriad ebost / eich manylion cysylltu dewisol.